GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

JUNE 2024 **Venerable Edward Morgan Catholic Primary School**

**Help keep your child well this winter – make sure they have their flu vaccine.**

Dear parent or guardian,

The school nursing/immunisation team will visit school on **Friday 13.09.2024** to offer children a **nasal spray flu vaccine**. The NHS recommends all eligible children should have a flu vaccination every year.

Please read the information and complete the consent form.

It's very important to protect your child from flu to make sure they stay as healthy as possible, as both COVID-19 and flu are likely to circulate this winter. Last year, nearly seven out of 10 primary school children in Wales had their flu vaccine.

The best flu vaccine for most children is a nasal spray. This is the vaccine that will be given on the day.

**Your child's consent form will be sent home with your child via school.**

To help make sure the vaccine is suitable for your child, and they don't miss out, please take time to read the information and then **return the filled-in form to your child's school before 15.07.2024.**

If you want more information about flu vaccination for children, please contact the school nurse or immunisation team, or phone NHS **111** Wales or visit **phw.nhs.wales/fluvaccine.**

Please keep this letter as it contains the date of the vaccination session and contact details.

Yours faithfully

Immunisation Team

**After you have returned the consent form, please contact the school nurse or immunisation team on [03000 858599] before the vaccination session if:**

- **there are any changes to your child's health, or**
- **their asthma medication is increased, or**
- **they are prescribed oral steroids, or**
- **they become wheezy.**

Note: There are a very small number of children who should not have the nasal flu vaccine please see the information sheet for more detail, or look at **phw.nhs.wales/fluvaccine**.

Mehefin 2024 **Venerable Edward Morgan Catholic Primary School**

**Helpwch i gadw eich plentyn yn iach y gaeaf hwn – gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei frechlyn ffliw.**

Annwyl riant neu warcheidwad,

Bydd tîm nyrsio/imiwneiddio'r ysgol yn ymweld â'r ysgol ar **Dydd Gwener 13.09.2024** i gynnig **brechlyn ffliw drwy chwistrell trwyn** i blant. Mae'r GIG yn argymell y dylai pob plentyn cymwys gael brechiad ffliw bob blwyddyn.

Darllenwch yr wybodaeth a llenwi'r ffurflen ganiatâd.

Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw er mwyn sicrhau ei fod yn aros mor iach â phosibl, gan fod COVID-19 a'r ffliw yn debygol o fynd ar led y gaeaf hwn. Y llynedd, cafodd saith o bob 10 o blant ysgol gynradd yng Nghymru eu brechlyn ffliw.

Y brechlyn ffliw gorau i'r rhan fwyaf o blant yw chwistrell trwyn. Dyma'r brechlyn a roddir ar y diwrnod.

**Bydd ffurflen ganiatâd eich plentyn yn cael ei hanfon adref gyda'ch plentyn drwy'r ysgol.**

Er mwyn helpu i sicrhau bod y brechlyn yn addas ar gyfer eich plentyn, ac nad yw'n colli allan, rhowch amser i ddarllen yr wybodaeth ac yna **dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi i ysgol eich plentyn cyn 15.07.24.**

Os ydych eisiau cael rhagor o wybodaeth am frechu rhag y ffliw i blant, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio, neu ffoniwch GIG **111** Cymru neu ewch i **icc.gig.cymru/brechlynffliw**.

Cadwch y llythyr hwn gan ei fod yn cynnwys dyddiad y sesiwn brechu a manylion cyswllt.

Yn gywir

Tim Imiwneiddio

**Ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen ganiatâd, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio ar [03000 858599] cyn y sesiwn brechu os.**

- **oes unrhyw newidiadau i iechyd eich plentyn, neu**
- **os yw ei feddyginiaeth asthma wedi cynyddu, neu**
- **os oes steroidau drwy'r geg wedi'u rhoi iddo/iddi ar bresgripsiwn, neu**
- **os bydd ei frest yn gwichian.**

Noder: Mae nifer bach iawn o blant na ddylent gael y brechlyn ffliw drwy'r trwyn. Gweler y daflen wybodaeth i gael rhagor o fanylion, neu edrychwch ar **icc.gig.cymru/brechlynffliw**.